www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Tai Tarian – L154

Mawrth 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-808-9
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Tai Tarian Cyf ("Tai Tarian" neu "y Gymdeithas") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a sefydlwyd yn dilyn trosglwyddiad gwirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ym mis Mawrth 2011. Cymdeithas Tai Cymunedol Cydfuddiannol ydyw, â'i haelodau yw'r perchnogion ac mae wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, gyda rheolau elusennol.

Mae Tai Tarian yn berchen ar dros 9,000 o gartrefi ac yn eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys mwy na 430 o gartrefi gwarchodol, ac mae'n darparu gwasanaethau i 500 o lesddeiliaid o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, trosiant y gymdeithas oedd £46.6m (2017: £45.6m), y gwarged oedd £5.8m (2017: £9.6m) ac roedd yn cyflogi 512 o aelodau o staff ar gyfartaledd (2017: 488).

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 33.2% | 25.0% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 21.0% | 12.5% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 4.2% | 4.4% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 100% | 100% | dd/g | 74% |
| Benthyciadau'r Gymdeithas £ miliwn | 86.9 | 86.9 | 130.0 | dd/g |
| Mae gan y Gymdeithas ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Mawrth 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol – Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.